

## **6 - Tremeirchion i Lanelwy 3.5 milltir/5.6 km**

(Mewn cyfnodau gwlyb, gall darn byr o'r llwybr yma fod yn eithriadol fwdlyd. Gwelwch yr opsiwn arall isod).

Dilynwch y ffordd i lawr yr allt o'r Eglwys a chymryd y fforch dde. Anwybyddwch y ffordd gyntaf ar y chwith (gydag arwydd Trefnant) a chymryd y lôn nesaf ar y chwith (gydag arwydd Fferm Sychdyn). Pan fydd y lôn yn gwyro i'r dde wrth ymyl y tŷ cyntaf (Tŷ Moel) cymerwch y gamfa gyda'r cyfeirbwyntiau ar y chwith i mewn i'r cae a dilynwch y camfeydd a'r saethau melyn, gan groesi pum cae (Cadwch y peilonau oddeutu 200 llath i'r chwith). Ar ôl y 4ydd gamfa, byddwch yn mynd drwy giât.

Trowch i'r chwith gan ddilyn yr arwyddion cyfeirbwyntio ar y chwith at giât ac yna i'r dde i ddilyn y gwrych drwy giât arall ac ar draws y cae i ffordd y fferm. Trowch i'r chwith ar ei hyd i groesi pont a dilyn y lôn yn syth o'ch blaen at gyffordd T gyda Chapel gyferbyn. Trowch i'r dde i basio'r Farmers Arms yn y Waen.

### **Opsiwn arall i osgoi cae mwdlyd**

*Cymerwch y ffordd gyntaf ar y chwith – gydag arwydd Trefnant. Cymerwch ofal yn cerdded wrth ochr y ffordd sy'n gallu bod yn brysur iawn. Dilynwch hon at y llwybr troed cyntaf ar hyd trac ar eich ochr dde. Dilynwch y llwybr troed yma o amgylch Plas Coch. Ar ôl pasio cefn y ffermdy ewch drwy giât ar eich ochr chwith a dilyn y llwybr sy'n mynd ar hyd ochr chwith y cae at gamfa. Croeswch dros hon a cherdded i lawr at y lôn. Yma byddwch yn ymuno â'r daith uchod.*

Ar ôl pasio'r dafarn, cymerwch y lôn ar y chwith. Pan fydd y lôn yn gwyro i'r chwith at grid gwartheg, ewch dros y gamfa ar eich ochr dde. Dilynwch arwyddion y llwybr troed ar draws caeau agored (golygfa o dŵr Eglwys Gadeiriol Lanelwy). Pan fyddwch yn cyrraedd gwaelod y dyffryn, ewch tua'r dde i groesi pont droed ddur dros yr Afon Clwyd.

### **OS Archwilio 264**

Dilynwch Daith Clwyd, unwaith eto, at yr hen drac rheilffordd a throi i'r dde. Mae'r llwybr yn gadael y trac i basio'r ysgol er mwyn cyrraedd y brif ffordd. Trowch i'r dde i'r Eglwys Gadeiriol.